

Blaenoriaethau ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

2021-2022



Rydym yn cefnogi treftadaeth y DU i addasu a ffynnu unwaith eto

Mae treftadaeth y DU yn wynebu ei bygythiad mwyaf difrifol ers yr Ail Ryfel Byd. Mae'r risgiau i safleoedd treftadaeth, atyniadau a sefydliadau o golli incwm sydyn a dramatig o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi rhoi'r economi treftadaeth ac ymwelwyr mewn argyfwng, ac mae angen ymateb ar frys.

Yn ystod 2020, roeddem yn canolbwyntio ar gefnogi treftadaeth ledled y DU i addasu ac ymateb i effaith uniongyrchol argyfwng COVID-19.

Wrth i argyfwng COVID-19 barhau i effeithio ar gynifer o agweddau ar ein bywydau, mae'r daith at adferiad ar gyfer treftadaeth y DU yn un anodd a heriol.

Wrth edrych i'r dyfodol drwy 2021, bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau i ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid, gydag arbenigedd, cyngor, cymorth brys a chyllid yn canolbwyntio ar adferiad uniongyrchol a thymor hwy.

Ein ffocws yw cefnogi'r sector treftadaeth i gryfhau ei adferiad yn y tymor canolig ac adeiladu'n ôl ar gyfer newid cadarnhaol ar draws treftadaeth y DU.

Mae gan dreftadaeth rôl hanfodol i'w chwarae o ran gwneud cymunedau'n lleoedd gwell i fyw ynddynt, creu ffyniant economaidd a chefnogi llesiant personol. Mae'r rhain i gyd yn mynd i fod yn hanfodol bwysig wrth i ni adfer o'r pandemig presennol. Rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda llywodraethau'r DU, a phartneriaid eraill, i gefnogi sefydliadau treftadaeth drwy'r misoedd i ddod ac rydym wrth ein bodd bod Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £3,000 i £5miliwn ar agor unwaith eto.




*Uchod: Amgueddfa Brunel
Credyd: Anne Koerber*

“Rydym wedi ymrwymo i gefnogi sefydliadau treftadaeth drwy'r misoedd i ddod”

Rydym yn hyderus bod ein Fframwaith Ariannu Strategol presennol ar gyfer 2019-2024 yn rhoi'r hyblygrwydd i ni ymateb i'r amgylchiadau heriol yr ydym i gyd yn gweithredu ynddynt. Fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Fframwaith Ariannu Strategol sy'n ymwneud â gwerth treftadaeth yn

economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'n bywyd cenedlaethol ac yn benodol sut y gall ein cyllid gefnogi adeiladu economïau, lleoedd a chymunedau lleol yn ôl.

Felly, nid yw ailagor cyllid prosiect yn golygu ein bod yn dychwelyd i fusnes cyn COVID-19. Disgwylwn i geisiadau am gyllid adlewyrchu'n llawn yr amgylchiadau newydd a'n blaenoriaethau wedi'u hailffocysu ar gyfer cyllid a nodir isod.



Cymdeithas Cadwraeth Rheilffyrdd Iwerddon, Gweithdy Dunleath. Credyd: Charles P Friel

Canlyniadau blaenoriaeth

“Dewiswyd ein canlyniadau blaenoriaeth i helpu i gefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol ehangach y DU o COVID-19”

Rydym yn cefnogi'r sector treftadaeth drwy ailagor cyllid prosiect ar gyfer yr ystod eang o brosiectau a gweithgareddau treftadaeth yr ydym bob amser wedi'u cefnogi, o safleoedd diwydiannol, cestyll a mannau addoli hanesyddol, i straeon ac atgofion ein cymunedau, yn barciau cyhoeddus, tirweddau naturiol a bywyd gwyllt brodorol.

Y newid allweddol yw – rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 – wrth wneud penderfyniadau ariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau treftadaeth sy'n bodloni o leiaf un neu fwy o'r canlyniadau canlynol:

- **economi gan gynnwys creu swyddi** – 'bydd yr economi leol yn cael hwb'
- **llesiant** – 'bydd gan bobl gwell llesiant'
- **ardaloedd lleol** – 'bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef'
- **sgiliau** – 'bydd pobl wedi datblygu sgiliau'
- **gwydnwch sefydliadol** – 'bydd sefydliadau a ariennir yn fwy gwydn'

Dewiswyd y canlyniadau blaenoriaeth hyn i sicrhau bod y cyllid a gawn gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol i ariannu prosiectau treftadaeth, yn cefnogi adferiad economaidd a chymdeithasol ehangach y DU o bandemig COVID-19.

Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect gyflawni ein canlyniad cynhwysiant: 'bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth'.

Yn ogystal, bydd yn rhaid i bob prosiect a gefnogwn hefyd ddangos eu bod yn amgylcheddol gyfrifol a'u bod yn integreiddio mesurau amgylcheddol yn eu prosiectau. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol ac adferiad 'gwyrdd' o'r pandemig. Disgwyliwn i bob ymgeisydd ystyried pa gamau y gallant eu cymryd i greu effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol drwy eu prosiect. Dylai'r mesurau y maent yn eu gweithredu fod yn briodol ar gyfer maint eu prosiect.

Canlyniadau eraill

Efallai y byddwn yn parhau i ariannu prosiectau sy'n bodloni canlyniadau'r Fframwaith Ariannu Strategol isod, ond bydd y rhain yn llai o flaenoriaeth yn ystod 2021/22:

- bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell
- treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well
- bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd

Blaenoriaethau ar gyfer treftadaeth

O fewn ein hymagwedd eang at dreftadaeth yn gyffredinol, mae ein tair blaenoriaeth ar gyfer treftadaeth, fel yr amlinellir yn ein Fframwaith Ariannu Strategol, yn parhau i fod yn:

- tirweddau a natur
- treftadaeth gymunedol
- treftadaeth mewn perygl

Rhestr o'r canlyniadau

Canlyniadau blaenoriaeth

Cynhwysiant (canlyniad gorfodol)

Bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth

Economi

Bydd yr economi leol yn cael hwb

Llesiant

Bydd gan bobl gwell llesiant

Ardaloedd lleol

Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

Sgiliau

Bydd pobl wedi datblygu sgiliau

Gwydnwch sefydliadol

Bydd sefydliadau a ariennir yn fwy gwydn

Cynaliadwyedd amgylcheddol: mae'n rhaid i chi ystyried camau nesaf y gall eich prosiect eu cymryd i gynyddu effeithiau cadarnhaol a lleihau effeithiau negyddol ar yr amgylchedd

Canlyniadau eraill

Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell

Treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hegluro'n well

Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid mewn syniadau a gweithredoedd

Blaenoriaethau ar gyfer treftadaeth

- tirweddau a natur
- treftadaeth gymunedol
- treftadaeth mewn perygl

Gweithredu ein dull o ymdrin â'r canlyniadau blaenoriaeth

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd gymesur a phragmatig i'r graddau y mae sefydliadau'n bodloni'r holl flaenoriaethau a gofynion. Bydd ein disgwyliadau'n dibynnu ar lefel y cyllid yr ydych yn gwneud cais amdano a darperir mwy o fanylion yn y canllawiau arferion da ar gyfer pob un o'n canlyniadau blaenoriaeth.

“Cydnabyddir ein hymagwedd fel rhai sydd wedi gwneud treftadaeth yn fwy democrataidd ac yn cael ei gwerthfawrogi'n eang nag o'r blaen”

Drwy gydol 2021/22 byddwn yn cynnig cymorth ychwanegol i sefydliadau i gyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth, er enghraifft drwy ganllawiau, nodiadau cyngor, rhannu enghreifftiau o arferion gorau ac archwilio ffyrdd hygyrch eraill i sefydliadau dderbyn y wybodaeth honno.

Rydym wedi diweddarau ein canllawiau Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn unol â'r blaenoriaethau hyn sydd wedi'u hailffocysu ar gyfer 2021/22. Sicrhewch fod yr holl ffurflenni ymholiadau prosiect, Datganiadau o Ddiddordeb a cheisiadau a gyflwynir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hynny.

Fel o'r blaen, bydd penderfyniadau ar gyllid ar gyfer prosiectau newydd o dan £5m yn cael eu gwneud gan bwyllgorau Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr a thimau sy'n lleol i bob prosiect.

Isod Amgueddfa Celf a Chrefft Ditchling



Ewch i'n gwefan am fanylion cyswllt:
www.heritagefund.org.uk/cy

#CronfaDreftadaethyLoteriGenedlaethol